

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 20

Key language

Os /Pe

New words

chwaeth	good taste
poblogaidd	popular
paid â rwdlian (NW)	don't talk nonsense
cyffrous	exciting
blin	ill-tempered
gan bwyll	steady on
pam lai	why not
braidd	rather, a little
mynnu	to insist
achos da	a good cause
o ddifrif	seriously
blêr	untidy
blynyddoedd ar flynyddoedd	years and years
cyflog	wages
rhagweld	to foresee
cyfaddef	to admit
gynnau	earlier on
lledu	to widen
lletchwith	awkward
dyfalu	to guess
parch	respect
cadw mewn cof	to keep in mind
sylweddoli	to realise
dychryn	fright
dicter	anger
dyfalu	to guess

Main Grammatical Points

Os/Pe

If a the sentence refers to something that is sure to happen or that there is no doubt that it'll be accomplished then it's introduced by OS

For example:

Os ydych chi'n mynd i'r gêm, cofiwch alw amdana i
If you're going to the game, remember to call for me

Os bydd hi'n bwrw glaw yfory, fyddwn ni ddim yn mynd i lan y môr
If it'll be raining tomorrow we won't be going to the beach

Os ydy hi'n dost dwedwch wrthi am aros yn y ty
If she's ill; tell her to stay at home

Os oes problem, ffonia fi
If there's a problem. Phone me.

Note that os is followed by the question form of the verb in Welsh
Os ydy...

Os oes ..

The other form you will hear for if is PE

PE is used when the sentence refers to a condition that is improbable or to something that there is a doubt as to whether it will be fulfilled.

Jenny says	Pe tasech chi'n ennill, beth fasech chi'n wneud â'r pres Richard
	If you won, what would you do with the money Richard
And later	Pe taswn i'n ennill baswn i'n rhoi'r gora i weithio
	If I won I would give up work

The best way to remember which form to use for If is to look for the word 'would' in the main clause, for example

If I were you, I would go.

In such cases PE is used.

Pe can be followed by Bawn, Byddwn, Taswn or Tawn

Pe bawn i'n artist, byddwn yn tynnu llun
Pe byddwn i'n ennill y loteri, byddwn i'n symud i fyw i Sbaen
Petaswn i'n cofio, baswn i'n dweud wrthoch chi.
Petawn i'n gallu nofio, byddwn i'n hoffi gwyliau glan y môr

Note that in speech

Pe taswn becomes taswn

Petawn becomes tawn

Pe baswn becomes Swn i

Eitha

Eitha is a word that crops up on a regular basis - it means quite or fairly

I'm sure you've come across the phrase - eitha da - quite well, or fairly well

Dic says: eitha prysur meaning quite busy or fairly busy

Ysbyty Brynaber: Episode 58

Wendy calls at Brian Rees' garage to look for a new car. They go for a trial run and end up in a little country pub for lunch!

Geirfa

chwaeth	good taste
poblogaidd	popular
paid â rwdlian (NW)	don't talk nonsense
cyffrous	exciting
blin	ill-tempered
gan bwyll	steady on
pam lai	why not

Golygfa 1

Brian - ...a Nigel? Mae eisie M.O.T. ar y Renault yma erbyn amser cinio... Achos dw i newydd addo i Mrs Davies ar y ffôn jest rwan y bydd o'n barod iddi hi ...O.K?

Wendy - Bore da...

Brian - O, helo... Mae sypreis... Bora da...

Wendy - Sori...Dw i ychydig bach yn gynnar...

Brian - Does dim ots. Gwell bod yn gynnar na bod yn hwyr ond ydy hi?

Wendy - Ydy...

Brian - Pa gar wyt ti yn ffansio ei test dreifio?

Wendy - Emmm...Y car coch yna...

Brian - Dewis da. Ti'n dangos chwaeth.

Wendy - Chwaeth? What?

Brian - Taste. Good taste. Car swish...

Wendy - Roeddwn i'n meddwl ei fod e'n swish hefyd.

Brian - Dw i wedi gwerthu rhyw bedwar neu bump yn barod eleni...

Wendy - Really?

Brian - Do, wir. Maen nhw'n boblogaidd iawn...Catch!

Wendy - Wps!

Brian - Rhaid iti fod yn fwy bachog...

Wendy - Bachog? Sori, ond dw i'n dysgu Cymraeg...Beth yw bachog?

Brian - Bachog... Emmm... Sut mae egluro?

Wendy - Ydy e'n rhywbeth i wneud â bachyn? Hook?

Brian - Ydy, siwr iawn. Hook. Bachyn ydy hook. I fachu... To hook ydy hynny ynte? Felly bachog ydy... wel... ti'n gofyn i foi wnaeth adael yr ysgol yn 16 rwan... Oedd gramadeg yn mynd reit dros fy mhén i yn yr ysgol ers talwm...

Wendy - Bachog must be 'to hook,' yeah?...

Brian - Bod yn fachog... Uffern dan! Am sgwrs! A dim ond chwarter i ddeg y bore ydy hi! Tyrd! Tyrd yma i ochor y dreifar...

Wendy - No way...!

Brian - Dim ond un ffordd sy yna o wybod os wyt ti'n lecio car ai pheidio, Wendy... A dim ond trwy ei yrru fo mae gwneud hynny...

Wendy - A beth os wy'n scratshio fe ar y ffordd mas o'r garej i'r main road?

Brian - Scratshio fo? Beth wyt ti'n rwdlian? Wnei di ddim, siwr!

Wendy - Roedd y car cyntaf ges i yn right off...

Brian - Right off?

Wendy - Dw i'n gallu bod ychydig bach yn lethal mewn car.

Brian - ...O, reit. Wel, os dwyt ti ddim yn teimlo yn hyderus... If you don't feel confident... Ac mae hwn yn gar reit bwerus... This is quite a powerful car...Wedyn efallai y basai'n well i fi yrru allan i'r wlad a gei di ei yrru fo yn ôl...

Wendy - Fair enough...

Brian - Ydy hynny yn dy siwtio di?

Wendy - Siwtio 'fi to a T.

Brian - Iawn 'te. I ffwrdd â ni...

Golygfa 2

Brian - ...Mae 'grip' ffantastig gin y car yma ar y ffordd... Ti'n gallu ei deimlo fo? Ac mae o'n gallu Cornelu'n wych...

Wendy - Dw i'n licio'r dashboard...

Brian - 'State of the art'... 'Air-conditioning' hefyd...

Wendy - Oes?

Brian - Pwysa'r botwm yna...

Wendy - Hwn?

Brian - Nage. Y llall. Yr un nesa ato fo, Wendy...

Wendy - Hwn?

Brian - Dyna ti... Mae o mor dawel, dwyt ti ddim hyd yn oed yn gallu ei glywed o...

Wendy - Dw i'n licio'r set yma... Mae hi mor gyffrous...

Brian - Cyffrous? Beth wyt ti'n feddwl?

Wendy - Isn't that the word?

Brian - Sori?

Wendy - For comfortable?

Brian - ... Na, na... Dim cyffrous...

Wendy - Don't laugh... I told you I'm a learner...

Brian - Sori. Mae'n ddrwg gen i. Dw i ar fai.

Wendy - Worst thing you can do for someone's confidence is laugh at them...

Brian - Ddim cyffrous ydy'r gair...

Wendy - Beth yw e 'te?

Brian - Cyfforddus.

Wendy - Dyna beth oeddwn i'n feddwl...

Brian - Cyfforddus ydy comfortable...

Wendy - Wel, mae'r set yma'n really cyfforddus...

Brian - Reit. Dyna ni. 'Handbrake' i fyny. Dy dro di rwan...

Wendy - God! Dw i'n teimlo'n nerfus nawr...

Brian - Does dim eisiau bod...

Wendy - 0 to 60 in six seconds meddet ti...

Brian - Os wyt ti'n gwasgu'n galed...

Wendy - What if I zoom off over that hedge and into those herd of cows?

Brian - Fyddet ti'n gwneud rhyw ffermwr hapus yn ffermwr blin iawn...

Wendy - That's what I'm afraid of...

Brian - Gan bwyll 'ta...Rho dy law d ii mi ...

Gad inni fynd trwy'r gêrs hefo'n gilydd...Gêr isa, gêr nesa ato fo, wedyn y trydydd gêr, y pedwerydd a 'overdrive' i fyny yn fan hyn...O.K?

Wendy - Yeah... O.K ... Can I have my hand back, please?

Brian - Sori...

Wendy - That's alright...

Brian - Edrycha...Yn lle mynd nôl i'r garej... Mae yna dafarn dw i'n gwybodi amdani... Rhyw bum, chwe milltir o fan hyn... Pam awn ni ddim yno?

Wendy - Os wyt ti eisiau...

Brian - Pam lai? Mae hi bron yn amser cinio don' ydy? Ac efallai gallwn ni gael sgwrs arall am y math o gar fasai'n dy siwtio di orau...?

Ysbyty Brynaber: Episode 59

Arwyn Saunders invites Dic to take part in a golf match against the local golf club.

Wendy and Brian are enjoying lunch in a country pub. Brian makes his intentions perfectly clear.

Geirfa

braidd	rather, a little
mynnu	to insist
achos da	a good cause
o ddifrif	seriously
blêr	untidy
blynyddoedd ar flynyddoedd	years and years
cyflog	wages
rhagweld	to foresee
cyfaddef	to admit
I	

Golygfa 1

Jenny - Bore prysur?

Dic - Eitha prysur. Pam? Dy i'n edrych yn harassed neu beth?

Jenny - Braidd... Be ydych chi'n wneud?

Dic - Llenwi ticed loteri...

Jenny - Byw mewn gobaith?

Dic - Alla i wastad freuddwydio...

Jenny - A petasech chi'n ennill? Be fasech chi'n wneud hefo'r pres, Richard?

Dic - Agor ysbyty fy hunan.

Jenny - Wir?

Dic - Na - jôc!

Jenny - Petaswn i'n ennill baswn i'n rhoi'r gorau i weithio yn yr ysbyty yma fory nesa.

Dic - Fory nesa - a fi hefyd.

Jenny - A gwneud beth wedyn?

Dic - Mynd rownd y byd.

Jenny - Ar eich pen eich hun?

Dic - Fwy o sbort gyda rhywun arall bydden ni'n meddwl?

Arwyn - Dr Allen...

Dic - Dr Saunders...

Arwyn - Beth yw'r 'Dr Saunders' yma o hyd? Arwyn, plis...

Jenny - A mae e'n mynnu fy ngalw fi'n "chi" hefyd...

Dic - Dim ond am eich bod chi'n galw fi'n "chi", Jenny...

Jenny - Beth am inni ddechra galw'n gilydd yn "ti"?

Arwyn - Ma'r busnes "chi" a "ti" yma wastad yn broblem...

Jenny - O.K. Ti o hyn ymlaen.

Dic - O'r gore. Beth ti moyn, Arwyn?

Arwyn - Ti'n chwarae golff?

Dic - Dw i wedi bod mas rhyw unwaith neu ddwy - ond fydden ni ddim yn galw fu hun yn golffiwr mawr... Pam?

Jenny - Adeg yma bob blwyddyn mae tîm o ddoctoriaid yr ysbyty yn chwarae tîm clwb golff y dre...

Arwyn - Er mwyn codi arian at achos da...

Dic - Syniad grêt. Ond os oes elfen o gystadleueth... Dw i ddim yn credu fy mod i hanner digon da...

Arwyn - Wrth gwrs dy fod ti..

Dic - Sa i'n credu hynny...

Arwyn - Does neb yn cymryd y peth o ddifri...

Jenny - Na...

Arwyn - Dipyn bach o sbort a sbri yw'r cyfan. Yntê, Jenny?

Jenny - Ia. Ac fel arfer mae pawb yn diweddu acw yn y ty ... Rhyw 'buffet' a gwydraid neu ddau o win...

Arwyn - Neu can o gwrw os oes well gyda ti...

Dic - Iawn. O.K. Os roi di dipyn o wersi i fi, Arwyn.
Arwyn - Roia i wrth gwrs.

Golygfa 2

Wendy - Neis fan hyn. Dw i'n licio'r dafarn yma...
Brian - A tanllwyth o dân. Ddim byd gwell ar hen ddiwrnod oer o Chwefror... Sut oedd y bwyd?
Wendy - Grêt. Didn't think that a test drive would include a free complimentary lunch, though...
Brian - Dw i'n trio gwneud fy ngorau glas i gadw fy nghwsmeriaid mor hapus ag y galla i...
Ti'n gwyod beth?
Wendy - Beth?
Brian - Mae'n ddrwg gen i fod pethau wedi mynd yn ...wel, yn flêr rhwng Agnes a ti yn yr ysbyty... Biti mawr...
Wendy - Yeah, well... Forget it. I have. It's in the past...
Brian - Mae'n dda bod ti'n gallu bod mor 'blasé'...
Wendy - Dw i'n barod i symud mlaen nawr.....
Brian - Wyt ti?
Wendy - Ydw. Dechrau o'r dechrau eto. Doeddwn i ddim yn 'cut out' i fod yn nyrs beth bynnag. Bad career move... Ti wedi bod yn y busnes ceir yma'n hir, Brian?
Brian - Blynnyddoedd ar flynyddoedd...
Wendy - Ti'n joio'r gwaith?
Brian - I fyny ag i lawr mae petha. Fel mewn pob job arall, siwr gen i... Am pa fath o waith wyt ti'n chwilio amdano fo?
Wendy - Sa i'n siwr...
Brian - Oes gen ti rhyw syniad?
Wendy - Na. Mae'n dibynnu...
Brian - Ar beth? Y cyflog?
Wendy - Ie... A lot o bethau eraill hefyd...
Brian - Fel beth?
Wendy - Dibynnu...
Brian - Dyna'r ail waith i ti ddweud y gair yna... Dibynnu.
Wendy - Dw i'n licio dibynnu. Mae lot o bethau mewn bywyd yn dibynnu ar lot o bethau erill... Pethau allwn ni byth eu - beth yw'r gair... What's the Welsh word I'm looking for? Things that we can't always foresee. Beth yw foresee yn Gymraeg?
Brian - Rhagweld.
Wendy - Ie. Dyna ti. Rhagweld.
Brian - Ond wyt ti'n rhagweld 'part exchange' am yr hen gar?
Wendy - Ydw...
Brian - Alla i wneud 'deal' arbennig ar gar newydd i ti, Wendy...
Wendy - All i di?
Brian - Mmmm-hmmm... Ti'n gweld... Paid â dwed wrth bawb... Ond mae gen i ffrind... Dyn o'r enw Jac Whelan... A rhyngon ni - rhwng Jac a fi - mi alla i gynnig 'deal' arbennig iawn i ti...
Wendy - You're holding my hand again, Brian...
Brian - Ydw, rydw i. A waeth imi gyfaddef ddim: ond dw i'n ei ffeindio hi'n anodd iawn i beidio â dal dy law di...

Ysbyty Brynaber: Episode 59

On the golf course Dic is experiencing some difficulties with his swing. Arwyn Saunders advises Dic to steer clear of the Wendy Keating case.

Later there's a party at Arwyn Saunders' house. In the kitchen Jenny is preparing a buffet. Dic makes advances towards Jenny ...

Geirfa

gynnau	earlier on
lledu	to widen
lletchwith	awkward
dyfalu	to guess
parch	respect
cadw mewn cof	to keep in mind
sylweddoli	to realise
dychryn	fright
dicter	anger
dyfalu	to guess
o ddifri	seriously

Golygfa 1

Arwyn - Efallai dy fod ti'n left-handed, Dic...

Dic - Ti'n meddwl?

Arwyn - Tria fwrw y bêl wrth sefyll yr ochr yma fel hyn nawr...

Dic - Iawn?

Arwyn - Lleda dy goese damaid bach... Dyna ti... Nawrte ... Dal y clwb fel hyn... Dyna ti –

Fel yna... Cadw dy lygaid ar y bêl... Cod y -

Da iawn... Lot gwell... Lot gwell hefyd... Ie, dyna beth sy'n bod... Wyt ti'n left-handed...

Dic - Arwyn... Ti'n gwbod beth drafodon ni gynnau... am Wendy...

Arwyn - O, ie?

Dic - Oeddet ti'n dweud fod pethau'n edrych braidd yn ddu iddi...

Arwyn - Yn ddu iawn, ddweden i..... Rhaid inni gadw mewn cof beth wnaeth hi, Dic... Yffach! Slapo

Sister Agnes Rees, rhywun gyda blynyddau o brofiad a lot o barch... A dweud y gwir alla i ddim

Meddwl am rywun sy'n fwy ei pharch na hi yn yr ysbyty...

Dic - Na, dw i'n sylweddoli hynny...

Arwyn - Edrycha nawr - mae pawb yn deall dy fod ti mewn sefyllfa lletchwith...

Dic - Eisiau i Wendy gael cyfle arall ydw i... Cyfle i brofi ei hun...

Arwyn - Smo fe lan i ti na fi...

Dic - Dw i'n deall hynny...

Arwyn - Mater i'r Panel Disgyblu yw e... Ac o nabod yr aelodau... Wel... Ddweden i fod gyrfa Nyrs

Wendy Keating mewn nyrsio ar ben...

Dic - Ond ti'n gwybod beth ddwedodd hi wrtho i?

Arwyn - Pwy nawr? Agnes?

Dic - Nage - Wendy...

Arwyn - Na - beth?

Dic - Taw Sister Rees roiodd slap iddi hi gyntaf... A taw dim ond mewn dychryn a dicter roiodd hi slap yn ôl iddi...

Arwyn - Beth wyt ti'n feddwl o honna 'te?

Dic – 'Brilliant'. Beth sy gyda ti i ddweud 'te, Arwyn?

Arwyn - Gair Wendy yn erbyn gair Agnes...? Ond o'r ddwy – dw i'n gwybod pwy fydden i'n ei gredu...

Dic - Ond beth os taw Wendy sy'n gweud y gwir?

Arwyn - Welodd Jenny y cyfan. Welodd hi Wendy yn bwrw Agnes.

Dic - Ond welodd hi ddim beth wnaeth ddigwydd cyn hynny. Naddo?

Arwyn - Dic: gair i gall nawr: ond mae gyda ti yrfa ddisglair o dy flaen di. Ti'n ifanc. Ti'n weithgar.

Mae pawb yn dy licio ti. A'r peth diwethaf rwyd ti eisiau'i yw cael dy sugno i ganol rhyw ffiasco fel hyn.

Cadw'n glir fydden i.

Golygfa 2

Arwyn - Jenny? Oes rhagor o bucks fizz 'ma?

Jenny - Draw yn fan acw ar y sinc...

Arwyn - Gwd.

Jenny - Fydd y buffet yn barod ym mhen rhyw bum munud... Jest gad imi orffen yn y gegin yma gyntaf – a wedyn geith y golffars ddod i helpu eu hunan...

Dic - Ti eisiau help?

Jenny - Na, dw i'n iawn... Jest eisiau tynnu'r "foil" 'ma oddi ar y platiau yma ydw i... Ti'n meddwl fod digon o fwyd i bawb?

Dic - Mwy na digon ddweden i...

Jenny - Ddwedodd Arwyn dy fod ti'n dal i boeni am Wendy... A beth sy'n mynd i ddigwydd iddi...

Dic - Ydw...

Jenny - Dydy pethau ddim yn edrych yn rhy dda...

Dic - Dyna beth ddwedodd dy wr di...

Jenny - Biti mawr.

Dic - Ydy. Mae e.

Jenny - Biti ofnadwy...

Dic - Ond efallai bod Arwyn yn iawn... Efallai ei bod hi'n bryd i fi roi hyn i gyd tu cefn i fi... A meddwl am y dyfodol... Meddwl am beth dw i'n mynd i wneud â fy mywyd...

Jenny - Ti'n rhywun sy'n cynllunio?

Dic - Na... Ddim fel hynny...

Jenny - Jest yn meddwl... a dyfalu...

Dic - Dyfalu... ie... Alla i dy gusanu ti? Sori.

Jenny - Pam 'sori'?

Dic - Sa i'n gwbod beth ddaeth drosto i...

Arwyn - Yffach! Chi'ch dau! Beth ydych chi wneud fan hyn ar pen eich hunain?

Jenny - Mae'r bwyd yn barod rwan, Arwyn...

Arwyn - Gwd. Achos mae tîm golff Ysbytu Glanaber bytu starfo...

Jenny - Deud wrthyn nhw am ddod i helpu eu hunan.

Arwyn - Ti'n O.K. Richard?

Dic - Ydw.

Arwyn - Paid edrych fel yna! Dere! Mae'n bryd i ti ddechre dysgu sut mae mwynhau dy hun o ddifri. Ond ydy hi, Jenny?

Jenny - Ydy. Ydy, mae hi...

Synopsis

Firstly a brief synopsis of what's been happening at Brynaber.

Brian has been trying to sell Wendy a new car. He took her for a trial run. It was soon obvious that Brian had more on his mind than selling the young nurse a car. He took her to a local pub for lunch.

Arwyn Saunders invited Dic to play in a golf match against the local club. Following the match they returned to the Saunders household where Jenny had prepared a buffet.

In the kitchen Dic asked Jenny for a kiss - she did not refuse...

Test yourself

1. How would you say 'if it rains, I'll be going' in Welsh?
 - a) Pe bydd hi'n bwrw glaw, byddaf i'n mynd
 - b) Os bydd hi'n bwrw glaw, byddwn yn mynd
 - c) **Os bydd hi'n bwrw glaw, bydda i'n mynd**
2. How would you say 'If I won the lottery I would travel the world' in Welsh?
 - a) **Pe bawn i'n ennill y loteri, byddwn i'n teithio'r byd**
 - b) Os byddwn yn ennill y loteri byddwn i'n teithio'r byd
 - c) Pe baswn i'n ennill y loteri, af i o gwmpas y byd
3. What is the phrase in north Wales for 'don't talk nonsense'?
 - a) paid â siarad
 - b) paid â gweiddi
 - c) **paid â rwdlian**
4. What is the Welsh word for 'to admit'?
 - a) cyfarfod
 - b) **cyfaddef**
 - c) cyfartal
5. What is the Welsh for 'quite busy'?
 - a) prysur ofnadwy
 - b) ychydig yn brysur
 - c) **eitha prysur**
6. How would you say 'in anger and fright' in Welsh?
 - a) **mewn dicter a dychryn**
 - b) mewn dicter a thymher
 - c) mewn dychryn ac ofn